**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/01956/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

21 Mehefin 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Medi ynghylch y Ddeiseb P-05-826 ynghylch cau Uned Damweiniau ac Achosion Brys Llwynhelyg.

Aeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ati i ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd am ei gynigion i drawsnewid gwasanaethau cymunedol ac ysbyty yn y Canolbarth a'r Gorllewin ar 19 Ebrill. Mae'r ymgynghoriad ar *'Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd'* yn para tan 12 Gorffennaf ac yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau i gymunedau.

Mae'r bwrdd iechyd yn cynnig newid er mwyn achub pob cyfle i wella iechyd y boblogaeth a gwasanaethau iechyd yn lleol; yn ogystal â wynebu ei heriau a sicrhau bod y gwasanaethau i gymunedau yn y rhanbarth yn wasanaethau o'r safon orau bosibl.

Rwyf yn croesawu'r ymgynghoriad pwysig hwn i wella gwasanaethau i boblogaeth Hywel Dda. Mae'r cynigion wedi cael eu harwain yn glinigol a'u datblygu ar y cyd â meddygon, nyrsys, grwpiau staff ehangach, pobl sy'n darparu gofal, cynrychiolwyr cleifion a phartneriaid.

Ar hyn o bryd, mater i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw penderfynu ar y cynigion, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau sefydledig hyn. Ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben, bydd y bwrdd iechyd yn ystyried y canlyniad ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd, a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol ar ddyfodol gwasanaethau yn y rhanbarth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y sylweddolwch, nu fyddai'n briodol imi gyflwyno sylwadau ar gynigion y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, gan y gallai gyfaddawdu unrhyw rôl sydd gennyf yn y broses.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services